

# Y PAPUR GWYRDD

# Ein cartref - Flat Earth neu Blaned Ddaear?

*Efrog Newydd — a'r angen i ddeall o'r newydd natur bregus ein byd*

Y PAPUR GWYRDD
Rhif 8
Hydref / Tachwedd 2008
PRIS: £1
ISSN 1755-3504

Yn ôl i'r dyfodol gyda sgiliau'r bwthyn clom



Glo Brwnt Na! - medd Cymru werdd




Y Tair Gwlad yn herio San Steffan ar GM

**Y PAPUR GWYRDD:** *Llais Cymraeg annibynnol i'r ymgyrch i barchu'r Ddaear*

Golygydd: Hywel Davies, 217 Vicarage Road, Treforys, Abertawe SA6 6DX Ffôn: 01792 798162
Ebost: ypapurgwyrdd1@btinternet.com Gwefan: www.ypapurgwyrdd.com
Cyhoeddir yn ddeufisol ers Awst 2007 gan gwmni Y Papur Gwyrdd Cyf.
Argreffir Y Papur Gwyrdd gan Wasg Morgannwg, Uned 27, Parc Busnes Mynachlog Nedd, Castell-nedd SA10 7DR yn llwyr ar bapur wedi'i ailgylchu gydag inc llysieuol ar 8 o'r 12 tudalen .

# Troseddwyr yn erbyn pobl a Daear

**DIM ond y mwya' cibddall ohonom sy'n gallu honni nad ydym yn gwybod am y peryglon sy'n wynebu pob rhan o'r byd o ganlyniad i Newid Hinsawdd - a bod hynny'n cael ei achosi gan ddynoliaeth a'n ffordd ddinistriol o fyw.**

Os na wyddem o'r blaen, cafwyd esboniad clir a chytbwys o'r sefyllfa trwy gyfres BBC 2 **Earth: The Climate Wars** gan y gwyddonydd Dr Iain Stewart.

Cafodd Cyngres yr Unol Daleithiau wybod, hefyd, wrth i'r gwyddonydd blaenllaw Dr James Hansen ddatgan wrth Bwyllgor Dethol y Tŷ ar Annibyniaeth Ynni a Chynhesu Byd-eang ei fod yn credu bod dwyster $CO_2$ niweidiol yn yr atmosffer eisoes wedi mynd heibio i'r lefel ddiogel.

Roedd Dr Hansen, sy'n un o benaethiaid NASA, ymysg y cyntaf i rybuddio Cyngres America am Gynhesu Byd-eang 20 mlynedd yn ôl. Dywedodd fod penaethiaid cwmniau ynni tanwydd ffosil wedi sylweddoli ers tro y niwed a achosir i'r amgylchedd wrth losgi glo, olew a nwy.

Ac yna achosodd Dr Hansen fraw a dychryn i'r sefydliadau pwerus trwy'r geiriau canlynol: "Yn fy marn i, dylid dod ag achosion llys yn erbyn Prif Swyddogion Gweithredol y cwmniau hyn am droseddau yn erbyn dynoliaeth a natur."

Wel, da iawn fe am fynnu bod niweidio'r Ddaear, gan beryglu holl ddyfodol dynolryw, yn fater troseddol o'r pwys mwyaf.

Hen bryd inni fynd ar ôl penaethiaid diwydiannol, fel pob troseddwr arall, am osod eu cyfoeth personol ac elw tymor byr i'w cwmniau yn uwch na lles pobl gyffredin a chymunedau.

Y gwir yw bod pendefigion globaleiddio a'u cynffonwyr yn credu eu bod nhw'n gallu osgoi effeithiau Newid Hinsawdd. Wrth i filiynau o bobl gyffredin farw mewn llifogydd, stormydd a sychder, eu bwriad nhw yw llochesu yn eu palasau.

**Pob clod i James Hansen, felly, am ddweud y dylent gael eu llusgo o'u moethusrwydd i'r carchardai am eu hanfadwaith - gan obeithio, os llwyddwn i ffrwyno Newid Hinsawdd, y cant flynyddoedd i ystyried yr hyn a wnaethant.** □

# CYNNWYS

**3** TYMHEREDD Y DDAEAR — ALLAN O REOLAETH?



**4** *BLE 'DYN NI'N BYW — FLAT EARTH NEU BLANED DDAEAR?*

**5** **YN ÔL I'R DYFODOL GYDA'R BWTHYN CLOM** - Keith Jones



**6** *Y GARDDWYR CUDD SY'N BLODEUO YN Y DINASOEDD … a Llanw a Thrai*

**7** ***GM? — DIM DIOLCH!* - *Haf Elgar***
*HER AL GORE I AMERICA*



**8** **GADEWCH Y GLO DAN DDAEAR!** - Sophie Wynne-Jones

**9** *LLAI O GIG ER MWYN Y BYD — Charlotte Davies*

**10** Y DDAEAR-IADUR — Be' sy 'mlaen o blaid y Ddaear?

**11** **PROTEST GLO BRWNT CAERDYDD**

# TROI O'R INC OLEW AT INC LLYSIAU I HELPU'R AMGYLCHEDD




**CREADURIAID anhysbys yr *imprint* cysgodol yw argraffwyr fel arfer, ond mae'n dda gan Y** Papur Gwyrdd **godi Gwasg Morgannwg i heulwen sylw cyhoeddus.**

**Bu Gareth Richards, perchennog a rheolwr y wasg, yn gyfrifol am argraffu'r** Papur Gwyrdd **o'r cychwyn gan ein symud ymlaen o bapur o goedwigoedd cynaliadwy i bapur wedi'i lwyr ailgylchu.**

**Bellach, cymerwyd y cam o droi at argraffu 8 o'n tudalennau gydag inc llysieuol yn lle inc olew er mwyn lleihau difrod amgylcheddol.**

**"Ein nôd yw agraffu'n llwyr gydag inc llysieuol," meddai Gareth, "Mae'r costau'n gostwng yn gyflym wrth i fwy o weisg ddechrau ystyried yr amgylchedd."**


►Mae Gwasg Morgannwg yn argraffu chwech Papur Bro ynghyd â'r **Tyst** wythnosol.



**(UCHOD A CHWITH): Yng Ngwasg Morgannwg, Gareth Richards, perchennog (ar y dde), ac Owain Jones, argraffydd (ar y chwith)**

Y gwir gadwriaethwr yw'r gŵr sy'n gwybod na cheir y byd yn rhodd gan ei dadau, ond ar fenthyg gan ei blant.

**JOHN JAMES AUDUBON 1785 — 1851**



**Mwy o ddoethineb gan dylluanod na phobl? Llun o ddau *Snowy Owl* gan yr artist byd natur Americanaidd John James Audubon.**

***Y RHYBUDD CRYFAF ETO GAN WYDDONWYR …***

# Rydym bellach yn colli rheolaeth ar dymheredd y Ddaear

**CAFWYD rhybudd difrifol newydd gan wyddonwyr bod ein ffordd o fyw yn ein hyrddio at Gynhesu Byd-eang a Newid Hinsawdd hynod beryglus am fod arweinwyr gwleidyddol a diwydiannol mor amharod i wynebu'r broblem o ddifrif.**

Mae'r gwyddonwyr yn datgan bod y sefyllfa mor argyfyngus fel bod rhaid datblygu technolegau planedol i ymyrryd yn fwriadol â systemau naturiol yn y gobaith o greu cydbwysedd newydd fydd yn cynnal dynoliaeth.

Cyhoeddwyd yr adroddiad gan gorff gwyddonol blaenllaw y *Royal Society*, yn dilyn ymchwil gan wyddonwyr Canolfan Newid Hinsawdd Tyndall ym Mhrifysgol Manceinion a Phrifysgol Caergrawnt.

Eu rhybudd yw bod allyriadau $CO_2$ yn parhau i godi mor gyflym fel eu bod yn siwr i gyrraedd 650 darn y miliwn yn yr atmosffer a fydd yn achosi cynnydd tymheredd ar gyfartaledd o 4C.

Ers blynyddoedd, bu llywodraethau'n datgan bod rhaid cadw codiad tymheredd y Ddaear i ddim mwy na 2C os am reoli Newid Hinsawdd.

Ond yn ôl y gwyddonwyr Brian Launder o Fanceinion a Michael Thompson o Gaergrawnt, dyw llywodraethau'r byd ddim wedi gweithredu'n unol â'u datganiadau ac mae'r sefyllfa'n gwaethygu ar garlam.

## LLYWODRAETHAU WEDI *DWEUD* MWY NA *GWNEUD* …

Eu cred yw bod angen datblygu technolegau newydd anferth i geisio unioni'r sefyllfa – er enghraifft, taflu Arian Diocsid o awyrennau i gymylau er mwyn ceisio adlewyrchu golau'r haul yn ôl i'r gofod, a gollwng llwythi enfawr o haearn i'r moroedd yn y gobaith o hybu'r plankton sydd mor bwysig wrth ddal $CO_2$ ond sy'n prinhau.

Er yn cytuno â'r rhybuddion, mae gwyddonwyr eraill, yn eu tro, yn rhybuddio nad yw'r technolegau anferth hyn mewn bodolaeth, y gallent fod yn beryglus ynddynt eu hunain, ac y byddai canolbwyntio arnyn nhw yn tynnu sylw o'r prif waith o leihau ein hallyriadau $CO_2$ *(gweler sylwadau Syr Martin Rees, Golygyddol, tud 4).*

►Meddai cyfarwyddwr Cyfeillion y Ddaear Cymru, Gordon James: "Mae'r ymchwil hwn yn alwad anferth i'r holl fyd ddeffro. Mae'n glir bellach nad ydym yn gallu gohirio gweithredu i leihau nwyon tŷ gwydr am ddegawdau, na blynyddoedd, na hyd yn oed am fisoedd.

"Mae'n hanfodol bod Cymru'n chwarae ei rhan i sicrhau'r toriadau allyriadau sydd eu hangen ar unwaith. Rhaid i bob penderfyniad o heddiw ymlaen gael ei weld yng ngoleuni Newid Hinsawdd.

"Rhaid i sut rydym yn teithio, sut rydym yn cynhyrchu ynni, sut gartrefi sydd gennym a sut rydym yn bwyta gyfrannu at leihau ein hallyriadau tŷ gwydr." ■

*Mwy ar: www.tyndall.ac.uk*


# Atgyfodi'r Sul tawel

**MAE cylchgrawn amgylcheddol** Resurgence **wedi lansio ymgyrch i atgyfodi'r Sul araf, traddodiadol (Cymreig?) fel un ffordd i bawb ohonom geisio torri lawr ar ddefnydd ynni.**

**Meddai Satish Kumar, sydd wedi bod yn olygydd ar y cylchgrawn ers 40 mlynedd: "Hyd yn ddiweddar, bu'r Sul yn ddydd o orffwys, yn ddydd o adnewyddu ysbrydol, ac yn ddydd i deuluoedd ddod ynghyd.**

**"Ond rydym wedi newid y Sul o fod yn ddydd o orffwys i fod yn ddydd o siopa, hedfan a gyrru.**

**"Yng nghyd-destun arllwys gormod o garbon i'r atmosffer, sy'n achosi canlyniadau catastroffig, gallwn a dylwn adfer y Sul fel dydd i Gaia, y Ddaear.**



Satish Kumar

**"Gallwn yn rhwydd gau archfarchnadoedd, siopau mawr a gorsafoedd petrol …**


**"Gallwn fwynhau'r Sul eto gyda'n teuluoedd a chyfeillion, neu wrth arddio, ysgrifennu, paentio, cerdded neu yn syml trwy dreulio amser yn myfyrio.**

**"Bydd hyn yn dda i'n hiechyd personol yn ogystal â iechyd y blaned.**

**"Ar unwaith, byddwn yn lleihau allyriadau carbon i'r atmosffer o seithfed rhan."**

GOLYGYDDOL HYWEL DAVIES

# Efrog Newydd — a'r dewis rhwng y Flat Earth a'r Blaned Ddaear



**FEL arweinydd prosesau globaleiddio economaidd sydd wedi gweld gwerthoedd prynwriaeth y Gorllewin yn ymestyn ledled y Ddaear, dioddefodd dinas Efrog Newydd yn enbyd gyda'r ymosodiad gan ffanaticiaid ar dyrrau'r *World Trade Centre* ym Medi 2001.**

O'r tu allan y daeth yr ymosodiad dieflig hwnnw ar symbolau cyfalafiaeth. Ond erbyn Medi 2008, gyda mawrion Wall Street — Lehman Brothers, Merrill Lynch, AIG, Morgan Stanley ac ati — yn gwegian, yn syrthio, neu'n cael eu cynnal ar gost enfawr yn null gwladoli gan lywodraeth Weriniaethol America, yr oedd yr ymosodiadau ar y system fel 'tai'n dod oddi mewn.

Ac wrth i gyfalafiaeth siglo yn ei chadarnle sancteiddiolaf, canlyniad *globaleiddio* yw bod canolfannau tebyg ledled y byd yn suddo hefyd wrth i fwy a mwy o ystrywiau ariannol enfawr a chymhleth ddod i'r amlwg. Un elfen gyffredin rhyngddynt yw mai elw oedd eu sail ac nid lles pobl yn eu cymunedau.

Cyn hyn, nid chai neb amau rhinweddau *globaleiddio*. Cabledd, dim llai, oedd codi cwestiynau amdano. Yn yr un modd, ers blynyddoedd, bu defnyddio'r gair *progress* yn ddigon i gyfiawnhau pob datblygiad newydd y gallai'r system cyfalafol weld elw ynddo heb holi am yr effaith ar gymdeithas nag amgylchedd. Ychwanegwyd 'Tŵf Economaidd' at y Deg Gorchymyn.

Bellach mae ymdrechion ffrantig ar gerdded i achub y system. Ond y broblem waelodol yw'r ffordd rydyn ni yn y Gorllewin wedi cael ein cyflyrru i edrych ar y Ddaear. Rydym yn cael ein hannog i addoli wrth allor 'tyfiant', i chwennych pethau a'u prynu. Ond y gwir yw nad yw'r byd ei hun, na'u hadnoddau, yn tyfu i gynnal meddylfryd a ffordd o fyw o'r math yma.

Mae'r ffaith nad ydyn ni fel pobl 'waraidd' a 'modern' - o gymharu a phobloedd 'gyntefig' brodorol - wedi deall hynny yn codi'r cwestiwn gwaelodol o sut rydym yn amgyffred y byd rydym yn byw ynddo.

Mae penawd yr ysgrif hwn yn holi ble rydyn ni'n credu ein bod yn byw – yn dal at yr hen syniad o'r *Flat Earth*, neu ar y Blaned Ddaear?

Beth yw'r pwynt o ofyn y cwestiwn? Mae pawb yn gwybod nad yw'r ddaear yn fflat. Fe'n darbwyllwyd o hynny ganrifoedd yn ôl, siwr.

Wel, do … Do?

Mae'n wir y cawsom y wybodaeth nad oedd ein morwyr mewn peryg o gwympo dros ddibyn arswydus ochrau'r '*flat earth.*' Roedd hwylio, a choncro, ac ysbeilio yn iawn, felly. *Progress!* Ond mae'n dal yn gwestiwn, heddiw, pa syniad — y *'flat earth'* neu'r blaned Ddaear — sy'n llywio'n ffordd o fyw a meddwl.

*Wrth i ni fod gyda'n teuluoedd yn ein cartrefi, wrth ein gwaith dyddiol, wrth hedfan ar wyliau - pan grewn ddiwydiannau a pholisiau economaidd ac ariannol — pa syniad sy'n waelodol i ni, sy'n rhoi cysur i ni, mewn gwirionedd?*

● Y *'flat earth'* gartrefol gyda'u hadnoddau di-derfyn, ei pharhad di-gwestiwn, a'i hufudd-dod i ddisgwyliadau dynol?

● Neu'r Ddaear — y belen blanedol wyrthiol sy'n chwyrlio yn y gofod, gyda haenen denau o awyr i'w anadlu, ychydig o ddŵr croyw i'w yfed, pridd prin gyda gwrtaith i'n cynnal, ac adnoddau sy'n diflannu? A'r cyfan yn system o gydbwysedd naturiol, rhyfeddol a bregus, sy'n ein cynnal fel rhan o fyd natur … ond sydd dan bwysau cynyddol gan ein llygredd amgylcheddol.

Mae ein methiant i ymateb i rybuddion taer ein gwyddonwyr am y niwed rydym yn ei achosi i'r Ddaear, yn awgrymu bod y mwyafrif ohonom yn glynnu'n dynn at y syniad cyfforddus ein bod yn ddiogel i fwrw 'mlaen gyda'n globaleiddio dinistriol ar y *'flat earth'*.

**O ganlyniad, mae'r dibyn yn nesau o ddifrif y tro hwn, ac nid Efrog Newydd yn unig sydd mewn perygl. Dibynnwn ar y lleisiau sy'n codi ledled y byd o blaid y Blaned Ddaear i'n hachub oll.**

**Felly, beth wnawn ni? Yn gyntaf, rhaid inni gofio cyflymder enbyd y newid a sylweddoli cyn lleied o amser sydd gennym i weithredu; ac yna rhaid i bob cymuned a chenedl ddod o hyd i'r defnydd gorau o'u hadnoddau er mwyn cynnal gwareiddiad mor hir ag y gallant.**



***James Lovelock 2006***

## Gwyddonwyr wedi'u brawychu …

MAE'R ail-gychwyn ac ehangu ar gloddio glo brig a dwfn yng Nghymru yn enghraifft glasurol o fethiant llywodraethau a byd busnes i dorri ar y cynnydd dinistriol mewn nwyon tŷ gwydr.

Mae'r methiant hwnnw'n sail i astudiaeth newydd frawychus ei chasgliadau gan wyddonwyr Canolfan Ymchwil Newid Hinsawdd Tyndall a Phrifysgol Caergrawnt a gyhoeddwyd gan y Royal Society.

I'r gwyddonwyr hyn, sy'n arbenigwyr ym maes hinsawdd ac amgylchedd y Ddaear, mae bygythiad Newid Hinsawdd bellach mor ddrwg, a'r ymateb mor llugoer, fel bod rhaid ystyried ymyrraeth dechnolegol uniongyrchol eithriadol i geisio rheoli'r sefyllfa.

Gobeithio mai ymateb Syr Martin Rees, sef llywydd y Royal Society, yw'r gorau. Cytuna ef y dylid ystyried ymarferoldeb a goblygiadau amrywiol y technegau a awgrymir. Ond mae'n ychwanegu na fyddai'r un ohonynt yn garden *'get out of jail free'* ac na ddylent dynnu sylw o gwbl o'r ymdrechion hollol hanfodol i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr ar frys.

**Os am arbed y Ddaear, yr angen yw inni ymroi at leihau ein defnydd o ynni, cefnu ar ynni tanwydd ffosil gan wrthod honiadau PR twyllodrus ynghylch Glo Glân — a throi at ynni adnewyddol.**

► Gweler adroddiad gwyddonwyr Manceinion/Caergrawnt ar ddifrifoldeb y sefyllfa amgylcheddol (tud 3) a phrotestio yn erbyn glo (tud 8 ac 11). ◻

‘DOES DIM BYD NEWYDD DAN YR HAUL’ ... MEDD Y DDIHAREB



# Gwersi hen fwthyn Aberaeron - yn ôl i'r dyfodol!



Bwthyn Pontbrenmydyr, Aberaeron

**Gan KEITH JONES Swyddog Amgylcheddol Cymru, Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol**

MAE’R termau eco, gwyrdd, cynaliadwy ac egni yn ffasiynol iawn heddiw, gydag amryw o gylchgronau a chyfresi teledu ac yn y blaen yn traethu amdanynt.

Ond fel mae teitl yr erthygl yma yn datgan ‘does dim byd newydd o dan yr haul’.

Mae gan yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol ddau adeilad sy’n adlewyrchu rhinweddau ‘eco’, ond mae bwlch o 300 mlynedd rhyngddynt.

Beth sy’n gyffredin rhwng bwthyn o’r 18fed ganrif ger afon Mydyr, Aberaeron, ac adeilad newydd a adeiladwyd yn y 21ain ganrif yn ardal y Llynnoedd?

Mae’r ddau ohonynt yn arddangos gwir ystyr y term ‘pensaernïaeth werinol’ gan eu bod yn ystyried lleoliad, deunydd i adeiladu, gwres, dŵr ac yn y blaen. Maent yn adlewyrchu dealltwriaeth o ddefnyddio deunydd brodorol, cynllunio sensitif ac yn gynaladwy.

Yn bennaf oll, maent yn adeiladau sy’n defnyddio canran bychan iawn o egni o’i gymharu hyd yn oed gyda chynlluniau’r llywodraeth i dai eco heddiw.

Y gwahaniaeth mwyaf ydy'r maint o egni sydd wedi ymgorffori yn eu strwythur. Mae nifer mawr o’r adeiladau ‘eco’ heddiw yn defnyddio llawer o egni yn eu strwythur a dull o adeiladu. Ond, yn aml iawn, y cyfiawnhad a ddefnyddir ydy ‘fydd hyn yn cael ei dalu yn ôl ar ôl hyn a hyn’.

Mae Pontbrenmydyr ger Aberaeron yn esiampl wych o dŷ gwerinol sy’n dyddio o’r 18fed ganrif. Fel nifer o dai yng ngorllewin Cymru a de Lloegr mae hwn yn dŷ clom (pridd, cob, mwd) gyda thô gwellt.

Mae’r math yma o adeilad gwerinol wedi esblygu i beidio â bod yn oer yn y gaeaf, nac i or-boethi yn yr haf. Mae'r tô gwellt yn ynysu'r adeilad yn wych, ac mae’r muriau pridd yn rheoli lleithder (sy’n hollbwysig mewn hen adeiladau).

Wrth adnewyddu’r bwthyn, mae’r Ymddiriedolaeth Genedlaethol wedi ystyried sut oedd posib codi’i safon i ofynion y 21ain ganrif, yn ogystal â pharchu ei threftadaeth a’i bensaenïaeth gwreiddiol.

Atgyweiriwyd y bwthyn gyda deunyddiau ‘lleol’ ond mae'r sustemau egni a dŵr yn dyddio o’r ganrif hon. Fe’i wresogir gyda sustem fodern iawn drwy wresogydd peled coed a phaneli solar; ailgylchir dŵr glaw, ac mae wedi’i ynysu’n ychwanegol gyda gwlân.

Ym mhen arall Prydain gellir canfod adeilad ‘Ôl troed / Footprint’ yn St Cathryn’s ger Windermere.

Mae’n adeilad gwbl newydd a adeiladwyd gan yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol sy’n adlewyrchu rhai o’r amcanion diweddar y mudiad o ‘leihau ôl troed’ ac i edrych ar ‘bensaernïaeth werinol’. Fe’i defnyddir fel man i addysgu am gynaliadwyaeth.

Eto, gwelir defnydd o ddeunydd lleol ac ni ddefnyddiwyd llawer o egni yn y broses adeiladu. Yn debyg iawn i Bontbrenmydyr, defnyddia pridd, gwellt, coed, a gwlân ond gyda dealltwriaeth a thechnoleg y ganrif yr ydym ynddi nawr.

Mae’r ddau adeilad wedi cael eu codi ar gyfer dibenion gwahanol, ond mae’r dull a ddefnyddiwyd i’w hadeiladu a’r modd yr ystyriwyd effeithiau amgylcheddol yn debyg iawn.

Doedd dim ystyriaeth am ‘adeilad gwyrdd’ 300 mlynedd yn ôl, ond roedd pobl yn ystyried defnyddio deunydd oedd yn lleol a dysgu gan eraill yr hyn oedd yn gweithio’n lleol.

Mae'r degawdau diwethaf wedi bod yn rhai tlawd iawn yn bensaernïol yn enwedig yn frodorol, yn werinol ac yn gynaliadwy. Mae tŷ modern yn yr Alban yn medru bod yn debyg iawn i un yng Nghernyw: does dim ystyriaeth am leoliad, defnyddiau lleol nac egni ymgorfforol.

Mae’r Ymddiriedolaeth Genedlaethol wedi dechrau ar broses pellgyrhaeddol o leihau ei ‘ôl troed’ amgylcheddol, ond mae cryn dipyn o wersi i’w dysgu o’r gorffennol.

Mae hyn i’w weld mewn pethau syml fel sustemau goddefol carthffosiaeth yr hen fythynnod sy’n dal i weithio ar ôl canrif a sustemau ‘modern’ mecanyddol sy’n torri lawr yn aml.

Does dim rhaid symud ar ein hôl. Ond er mwyn mynd ymlaen, mae'n rhaid edrych yn ôl a dysgu o’r gorffennol.



**Sut i adeiladu heb ddinistrio’r Ddaear**



**Yn St Catherine’s ger Windermere — adeilad sy’n asiad o’r hen a’r newydd**



**Plant yn dysgu defnyddio deunydd lleol i godi tŷ modern**

*Wedi hen alaru â'r diffeithwch trefol? Dilynnwch y 'guerrillas' heddychlon ...*

# "Brwydrwn y bryntni gyda blodau!"

**DYW'R gair *'guerrilla'* ddim yn neidio i'r meddwl fel un sy'n adlewyrchu creadigrwydd heddychlon, ond pan ddaw'r geiriau *Guerrilla Gardeners* at ei gilydd, mae hynny'n sicr yn wir.**

Pobl ydy'r *Guerrilla Gardeners* sy'n garddio heb ganiatad gan ddod â harddwch i lecynnau a adawyd yn anialwch gan lywodraethau dinesig.

Cychwynnodd mudiad anffurfiol y garddwyr answyddogol yn Efrog Newydd yn y 1960au, ond bellach mae grwpiau ac unigolion wrth eu gwaith ymhob rhan o'r byd.

Gellir darllen am hanes y mudiad a'u gweithgareddau gwerthfawr mewn llyfr newydd o'r enw **On Guerrilla Gardening** (Bloomsbury) gan Richard Reynolds. Ei slogan yw "*Fight filth with flowers"!*

Aeth Richard ati ei hun i ddechrau plannu pan oedd yn byw mewn bloc uchel o fflatiau yn Llundain ac yn hiraethu am gefn gwlad.

Sylwodd fod tir diffaith o gwmpas y fflatiau, a dechreuodd blannu. Aeth ati heb ofyn am ganiatad swyddogol gan iddo wybod cymaint o ddryswch biwrocrataidd y byddai hynny yn ei achosi i unrhyw gyngor lleol.

Er bod y garddio yn digwydd gyda'r hwyr wedi i bobl orffen eu gwaith, mae Richard a'i gyfeillion yn hollol agored wrth balu a phlannu yn y llecynnau anial ac yn aml mae pobl leol yn falch i'w gweld wrthi.

"Rydyn ni'n cael llawer o gefnogaeth. Ry'n ni wedi cael cynnig tê, siocled, hyd yn oed cawl," meddai Richard.

Yn ôl y gyfraith, mae'r garddio yn 'ddifrod troseddol' ond, ar



**Dan gyffordd ynghanol Llundain, blodyn haul answyddogol yn dod â lliw i dir diffaith**

y cyfan, dyw'r heddlu ddim yn ymyrryd, na'r cynghorau 'chwaith - wedi'r cyfan, mae mannau prydferth yn cael eu creu heb gost o gwbl i'r pwrs cyhoeddus o ganlyniad. Ac mae byd natur yn elwa, hefyd, o'r amrywiaeth o blanhigion a blodau newydd lle bu diffeithwch blêr.

►Gelli dysgu mwy ar wefan www.guerrillagardening.org. □

## ENNILL A CHOLLI YM MRWYDR Y DDAEAR — Crynodeb 2 fis

### GWELD Y GOLAU

**LLONGYFARCHIADAU i Gyngor Powys am arwain y ffordd ar sut i arbed ynni drwy ddiffodd dwy ran o dair o'u lampau stryd. Golyga'r penderfyniad na fydd 9,380 o lampau yn cael eu defnyddio - o gyfanswm o 14,000. Roedd Powys yn wynebu cynnydd costau o £500,000 i £675,000 y flwyddyn.**


**► Beth am ymgyrch tebyg gan gynghorau eraill a'r cwmniau hynny sydd mor hynod wastraffus wrth adael goleuadau ymlaen mewn swyddfeydd?**

### CEISIO ATAL SHELL

AR GYNNYDD mae'r protestio yn Iwerddon yn erbyn canolfan nwy newydd sy'n cael ei sefydlu gan gorfforaeth mawreddog Shell. Mae degau o bobl leol ardal Rossport yn Swydd Mayo wedi bod yn gwrthwynebu'r datblygiad sy'n difrodi bae naturiol ysblennydd Glengad. Arestiwyd nifer a bu raid i un ohonynt dderbyn triniaeth ysbyty.

### TRAIS GUATEMALA

ER gwyrthwynebiad ffermwyr brodorol , mae cwmni tanwydd-amaeth yn Guatemala wedi bod yn datgoedwigo ac yn ail-blannu ardal fawr yn Fina Los Recuerdos ers tair blynedd er mwyn cynhyrchu ethanol ar gyfer trafnidiaeth y Gorllewin. Pan gynhaliwyd protestiadau gan deuluoedd brodorol, ymosodwyd arnynt gan luoedd parafilitaraidd cysylltiedig â'r cwmni sy'n gyfrifol, sef Ingenio Guadelupe. Esbonia mudiadau amgylcheddol Guatemala fod y llywodrodaeth, tirfeddianwyr mawr a chwmniau amaeth yn cydweithredu i gipio'r tiroedd brodorol yn anghyfreithlon. Cefnogir y datblygwyr gan y Banc Datblygu Rhyng-Americanaidd (IADB).



### YR ARCTIG YN TODDI

AM y tro cyntaf yn ystod hanes dynoliaeth, mae Pegwn y Gogledd wedi dod yn ynys wrth i iâ barhau i doddi o ganlyniad i Gynhesu Byd-eang. Cadarnhawyd yr ofnau gan luniau o'r gofod ym mis Awst. Awgrymodd yr Athro Mark Serreze sy'n arbennigwr iâ gyda Chanolfan Eira a Iâ yr Unol Daleithiau ei bod hi'n bosibl fod yr Arctig wedi cychwyn ar doddiant cynyddol na fydd modd ei atal – *"a death spiral."* Dyma'r tro cyntaf i hyn ddigwydd ers cychwyn yr Oes Iâ olaf, 125,000 o flynyddoedd yn ôl. Rhybudd gwyddonwyr yw y bydd diflaniad yr iâ yn achosi mwy o Gynhesu Byd-eang a Newid Hinsawdd.

### DINISTR YR AMAZON

YN YSTOD y flwyddyn hyd at Awst diwethaf, dinistrwyd ardal hanner maint Cymru – tua 3,145 milltir sgwar – o goed trofannol yr Amazon, datgelodd Sefydliad Ymchwil Gofod Brasil. Wrth i brisoedd soy a choed godi ar y farchnad ryngwladol, mae ffermwyr a thorwyr coed yn gwthio ymhellach i'r jwngl. Cyhudda amgylcheddwyr Brasil eu llywodraeth o gefnu ar addewid i amddiffyn yr Amazon – sef un o amddiffynfeydd ecolegol mwya pwysig y Ddaear wrth ddal a storio $CO_2$.

### BWYD GWERINOL

**YN Ethiopia mae Cymdeithas Ddiwylliannol Tabor yn ymgyrchu dros fwydydd lleol yn erbyn y mewnlifiad o fwydydd Gorllewinol sy'n dod gyda globaleiddio. Ers 2005, wrth i gyrff datblygu, cenhadon, ac eraill wthio'r 'modern' yn lle'r brodorol, mae Tabor wedi bod yn cynnal gwyliau i hybu bwydydd lleol iachusol, amrywiol, a chynaliadwy.** *www.1000starsfest.com*

### LLAI O SIOPA

YN y Sioe Amaethyddol yn Llanelwedd, rhybuddiodd Mark Berrisford-Smith o HSBC fod cyfnod siopa fel sail i'n heconomi a bywyd hamdden yn darfod. Byddai hyn yn anorfod, meddai, wrth i ddirwasgiad fygwth y Gorllewin.

# Her Al Gore: Ynni adnewyddol ymhen 10 mlynedd

MAE cyn-Is Arlywydd yr Unol Daleithiau Al Gore wedi herio America i anelu at gynhyrchu 100 y cant o'i thrydan o ynni adnewyddol a ffynonellau di-garbon gwirioneddol lân o fewn 10 mlynedd.

Meddai mewn cyfarfod yn Washington: "Mae'r nôd hon yn gyrhaeddiadwy, yn fforddadwy ac yn drawsnewidiol. Mae'n golygu her i bob Americanwr – ymhob maes: i'n harweinwyr gwleidyddol, pobl busnes, mentryddion, peirianwyr, ac i bob dinesydd."

Dywedodd Mr Gore fod amgylchiadau newydd yn gwneud hyn yn bosibl: "Mae'r cwymp trawiadol sydd ar gerdded yng nghostau ynni haul, gwynt a geothermal – ynghyd â'r cynnydd dramatig diweddar ym mhrisoedd olew a glo – wedi gweddnewid economeg *[y diwydiant]* ynni."

Gofynnodd y bobl a honnai nad oedd 10 mlynedd yn ddigon i wrando ar rybuddion gwyddonwyr ynglyn â'r peryglon difrifol fydd yn gwasgu arnom ymhen 10 mlynedd os na weithredwn.

"Ar yr un pryd," meddai, "Rhaid i ni gryfhau'n hymroddiad i effeithlonrwydd ynni a chadwraeth. Dyna'r fuddsoddiad orau allwn ei wneud."



**Al Gore: Ynni adnewyddol llwyr mewn degawd — fel her JFK i gyrraedd i'r lleuad.**

*Haf Elgar yn datgelu neges ddi-amwys y 3 gwlad i San Steffan ...*

# GM? Dydych chi ddim yn siarad drosom ni!

**AR wahan i sylwadau Tywysog Cymru, mae'r rhan fwyaf o sylw'r wasg yn ddiweddar wedi bod o blaid bwyd a chnydau wedi eu haddasu'n enetig (GM).**

Cafwyd honiadau eu bod yn datrys popeth - o newid hinsawdd a'r argyfwng bwyd i newyn a llifogydd.

Ar hyn o bryd, mae'r Undeb Ewropeaidd yn ystyried sut i gyflymu'r broses o awdurdodi cnydau GM a sut i gynyddu'r GM mewn bwydydd anifeiliaid heb ddweud wrth gwsmeriaid.

Ac mae Gweinidog Amgylchedd llywodraeth y Deyrnas Unedig (DU), Phil Woolas, yn gryf o blaid GM ac ar brydiau'n ymddwyn fel cynrychiolydd cwmni biodechnoleg.

## CWRDD Â'R CWMNIAU GM

Ym Mis Mehefin, bu mewn cyfarfod â'r Cyngor Biodechnoleg Amaethyddol. Dyma'r grwp PR sy'n cynrychioli'r cwmniau hadau GM - Monsanto, Bayer, Dow a Syngenta ymysg eraill. Y bore wedyn, cyhoeddodd ei fod yn ail-edrych ar sut i hwyluso tyfu cnydau GM yn y DU - a hynny heb ymgynghori â llywodraethau Cymru a'r Alban.

A gan mai DEFRA sy'n bwrw pleidlais y DU ar GM yn yr Undeb Ewropeaidd, does fawr o syndod eu bod yn un o'r cefnogwyr mwyaf brwd.

**Ond, a yw'r Deyrnas Unedig yn unedig o blaid GM?**

Dengys arolygon barn yn rheolaidd fod y farn gyhoeddus yn gryf yn erbyn GM ym Mhrydain ac ar draws Ewrop.

Yn y 'drafodaeth GM' yn 2003, mynnodd 85% nad oeddynt am weld cnydau GM yn cael eu tyfu yn y DU. A phan gynigiwyd rheolau llac ar gnydau GM yn Lloegr, gwrthodwyd y polisi gan 95%.

**Yn ogystal, mae tair llywodraeth arall y DU yn gwrthwynebu tyfu cnydau GM.**

Mae Llywodraeth Gogledd Iwerddon wedi datgan hyn, a'r Alban yn gynyddol yn erbyn dros y flwyddyn ddiwethaf.

Dywedodd llefarydd ar ran Prif Weinidog yr Alban, Alex Salmond, y byddai GM yn tanseilio safon uchel amgylchedd a bwyd yr Alban.

Ysgrifennodd Gweinidog Amgylchedd yr Alban, Michael Russell, erthygl yn cefnogi sylwadau'r Tywysog Charles a hefyd yr egwyddor bod angen gofal gyda GM gan nad oes prawf na achosir niwed na fydd modd ei ddadwneud.

**A beth am Gymru?**

*Dyw'r datganiadau cyhoeddus heb fod mor amlwg, ond pan ddaw i bolisiau a gweithredu deddfau mae bwriad Llywodraeth Cymru'n glir. Mater o wneud nid dweud yw hi yng Nghymru.*

Yn 2000 pleidleisiodd y Cynulliad Cenedlaethol yn unfrydol yn erbyn tyfu cnydau GM ac mae Cymru wedi bod yn ddi-GM ers 2001.

Yn rhaglen llywodraethol 'Cymru'n Un' ceir ymrwymiad i gyfyngu cnydau GM i'r eithaf.

Yn y Rheoliadau ymgynghorol ar atebolrwydd amgylcheddol, cynigiodd Llywodraeth y Cynulliad bod y cwmniau biodechnoleg yn atebol am unrhyw lygriad a achosir gan eu cnydau yng Nghymru. Mae hyn yn groes i'r rheoliadau gwan ar gyfer Lloegr

## POLISI MEWN DWYLO DA

Mae strategaeth ffermio newydd y llywodraeth yn datgan mai *"Polisi parhaus Llywodraeth Cynulliad Cymru, felly, yw arddel y safbwynt mwyaf cyfyngol a rhagofalus at fasnachu cnydau GM yng Nghymru, sy'n gyson â fframweithiau cyfreithiol yr UE a'r DU."*

Ymddengys bod Cymru di-GM mewn dwylo da gyda'r Gweinidog Amaeth, Elin Jones.

Felly, gyda thair llywodraeth datganoledig y Deyrnas Unedig yn gwrthwynebu cnydau GM, ffugiad yw pleidleisiau a datganiadau unedig DEFRA a'i weinidogion.

Defnyddiwyd newid hinsawdd fel rheswm i hybu'r diwydiant biodanwyddau, sydd wedi cyfrannu at yr argyfwng bwyd diweddar.

Nawr, mae'r argyfwng bwyd yn cael ei ddefnydio fel rheswm i adfywio'r diwydiant GM.

**Does bosib y gallwn ni ddysgu o'r gorffennol ac osgoi ail adrodd camgymeriadau?**

**Roedd Sophie Wynne-Jones ymhlith y cannoedd fu'n protestio yn y Gwersyll Newid Hinsawdd yn erbyn Pwerdy Glo Kingsnorth yn ne Lloegr. Dyma'i hadroddiad ar neges y gwersyll:**

# Gadewch y glo dan ddaear!

**WRTH i'r trydydd Gwersyll Hinsawdd agosau, gwelwyd paratoadau prysur led-led Cymru.**

Dyma fyddai'r flwyddyn gyntaf i ni gael ein cymdogaeth ein hunain fel Cymry yn y gwersyll - ac fel gyda phopeth arall a wnaed gennym yn ddiweddar, roeddem am greu argraff.

Yn ystod y 12 mis diwethaf, daeth Cymru'n fagwrfa i weithredu newid hinsawdd gyda llawer yn digwydd gan gynnwys ar safle glo brig Ffos-y-frân, Merthyr Tudful, sef safle glo brig mwyaf Ewrop, ac yn erbyn cynhyrchydd carbon diocsid mwyaf Cymru, sef Pwerdy Aberddawen.



Roedd presenoldeb cryf iawn gan yr heddlu i wylio'r Gwersyll Newid Hinsawdd. Rhyfedd bod pobl ifainc sy'n ceisio atal twf $CO_2$ a Newid Hinsawdd dinistriol yn cael eu hamau, tra bod Prif Weinidog yn cael rhwydd hynt i gynllunio mwy o ddifrod i'r amgylchedd



Y gwersyll gyda phwerdy glo Kingsnorth yn y cefndir — yr un newydd cyntaf yn Lloegr ers 30 mlynedd



Aeth tua 40 o Gymru i ymuno â'r gwrth-dystiad



LLUNIAU: DAVID LINSLEY-HOOD

Dyw hi ddim yn syndod bod nifer y bobl sy'n bryderus ynghylch newid hinsawdd wedi bod yn tyfu'n gyflym iawn dros y blynyddoedd diweddar.

Ond y llynedd yn arbennig gwelwyd twf mawr yn y bobl sy'n barod i gymryd materion i'w dwylo eu hunain oherwydd eu rhwystredigaeth gyda diffyg ymateb y llywodraeth.

A dyna oedd pwrpas y Gwersyll Hinsawdd: cael dod yn rhan o'r ymgyrch gan wneud gwahaniaeth.

Neges fawr y gwersyll eleni oedd: **Gadewch y glo dan ddaear.** Roedden ni wedi dod i bwerdy arfaethedig Kingsnorth yn Swydd Gaent i ddangos ein pryder ynglŷn â chynllun cwmni Eon i godi'r cyntaf o don newydd o bwerdai glo.

Ond y neges ddaeth adref gyda ni oedd yr angen i reoli cyflenwadau hefyd. Nid safle glo brig Ffos-y-frân — lle buom yn protestio cymaint — yw'r unig un a fwriedir ar gyfer Cymru.

Bydd polisi ynni sy'n dibynnu ar lo yn condemnio mwy o ardaloedd yn neheudir Cymru i gael eu llygru gan gynlluniau cloddio eraill. Er gwaethaf sylwadau Arthur Scargill ar y mater, mae'r holl sôn am 'lo glan' a 'dal a storio carbon' wedi cael eu profi i fod yn anweithredol hyd o leia' 2020 – sy'n rhy hwyr i ateb bygythiad cynyddol newid hinsawdd.

Mae llawer o bethau da y gallwn wneud yn ein bywydau pob dydd i leihau'r pwysau ar yr hinsawdd. Ond y gwir cas yw na fydd hyn yn cyfrif am ddim os awn ymlaen i gloddio a llosgi mwy o lo.

Rhaid inni weithredu nawr. Dyna wnaethom ni trwy fynd i'r Gwersyll Hinsawdd a thrwy fod yn rhan o'r ymgyrch ehangach yn erbyn glo.

Pam na ddewch chi i ymuno â ni? ◻

► **Am fwy o wybodaeth:**
**www.thecoalhole.org; www.stopffosyfran.co.uk**

*►CAFWYD protestwyr Greenpeace yn ddi-euog o achosi difrod troseddol i Bwerdy Kingsnorth yn ystod cyfnod y Gwersyll Newid Hinsawdd. Cafodd chwech gwrthdystiwr a ddringodd simdde'r pwerdy eu clirio o gyhuddiad o achosi £30,000 o ddifrod. Clywodd y rheithgor fod Kingsnorth yn allyru 20,000 tunnell o garbon bob dydd, gan achosi Cynhesu Byd-eang.*

## LLOEGR YN HYBU BEICIO MEWN 12 DINAS A THREF

MAE 12 o ddinasoedd a threfi yn Lloegr yn mynd i rannu £100miliwn er mwyn hyrwyddo defnyddio beiciau yn lle ceir.

Bryste fydd yn arwain y ffordd gan ddefnyddio £11.4miliwn wrth ennill teitl 'Dinas Feicio' gyntaf Lloegr.

Bydd Blackpool, Caergrawnt, Caer, Colchester, Leighton-Linslade, yr Amwythig, Southend, Southport, Stoke, Woking ac Efrog yn dod yn 'drefi arddangos beicio.'

Bydd llwybrau beicio a phontydd newydd yn cael eu creu a chyrsiau hyfforddi yn cael eu sefydlu wrth i lywodraeth leol roi arian cyfatebol.

☺ Croesawyd y cyhoeddiad yn fawr gan asiantaeth *Cycling England* sy'n hybu beicio ledled Lloegr.

## ONID YW'N HEN BRYD I AMAU'R FUWCH SANCTAIDD?

# Angen y byd i dorri lawr ar fwyta cigoedd

Gan DR CHARLOTTE DAVIES



**MAE digon o gyngor ar gael ynglyn â sut mae unigolion yn gallu cyfrannu at ymdrechion i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr, er enghraifft:**

- torri i lawr ar ddefnydd ceir trwy gerdded mwy, neu seiclo, neu ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus
- osgoi hedfan, yn arbennig am siwrneau byr
- troi'r gwres canolog i lawr gradd neu ddwy yn ein tai
- peidio â derbyn cymaint o lapio plastig diangen.

Gwrthodir rhai o'r awgrymiadau hyn yn ffyrnig gan gwmnïau mawr megis gwneuthurwyr ceir a chwmnïau hedfan sy'n gweld eu hunain yn colli ma's yn ariannol o'u gweithredu. Wrth gwrs, dydy e ddim bob tro yn hawdd i unigolion newid – er enghraifft, i rywun sy'n byw mewn ardal wledig heb drafnidiaeth gyhoeddus ddigonol ac felly'n fwy dibynnol ar gar.

Ond mae 'na ffordd arall o leihau ein hôl-troed carbon yn sylweddol sy' ddim yn anodd o gwbl i weithredu, sy'n debyg i fod yn effeithiol iawn ac o les i iechyd pobl, ond sydd, hyd yn hyn, yn cael llawer llai o sylw – sef, bwyta llai o gig.

Mae Cadeirydd Panel y Cenhedloedd Unedig ar Newid Hinsawdd, Dr Rajendra Pachauri, wedi galw (*Observer 07/09/08*) ar bobl i gael un diwrnod yr wythnos heb fwyta cig ac wedyn i dorri i lawr ymhellach.

Amcangyfrifir gan Sefydliad Bwyd ac Amaethyddiaeth y Cenhedloedd Unedig bod bron 20% o allyriadau nwyon tŷ gwydr ledled y byd yn dod o brosesau sy' ynghlwm wrth gynhyrchu cig. Ac yn ôl y sefydliad amgylcheddol 'Worldwatch' mae canlyniadau bwyta cig i'w gweld mewn sawl agwedd arall o ddinistr amgylcheddol – colli coedwigoedd, prinder dŵr, colli bioamrywiaeth, ac anghyfiawnder cymdeithasol.

Wrth gwrs, rydym yn gallu disgwyl y bydd gwrthwynebiad ffyrnig i'r argymhelliad i fwyta llai o gig gan y diwydiant cynhyrchu cig. Digwyddodd hyn eisoes wrth i'r diwydiant ymateb i'r honiadau bod bwyta gormod o gig, yn arbennig cig coch, yn achosi problemau iechyd difrifol.

Cafwyd ymateb chwyrn yn Awstralia. Mewn erthygl yn *Anthropology Today* (Mehefin 2008), mae'r Athro Adrian Peace o Brifysgol Adelaide yn trafod y cam-ddefnyddio o syniadau anthropolegol gan gorfforaeth fawr *Meat and Livestock Australia.*

Maen nhw wedi dadlau bod bwyta cig yn gyfrifol am ymennydd mawr dynolryw - sydd wedi ein gwneud ni'n fwy deallus heddiw - a'i bod yn beth naturiol, yn reddfol yn wir, i fwyta cig oherwydd gwreiddiau ein rhywogaeth ym mhaith yr Affrica.

Felly, yn ôl *Meat and Livestock Australia*, dyma pam mae dynion yn mwynhau coginio cig ar y barbiciw wrth i'r menywod baratoi'r llysiau!

Ond, mewn gwirionedd, mae astudiaethau anthropolegwyr proff-esiynol o bobloedd gwahanol ledled y byd yn pwysleisio pa mor ystwyth ac amrywiol y mae arferion o beth, a sut, rydyn ni'n dewis bwyta. Mae deiet yn dibynnu mwy ar ddiwylliant nag ar fioleg, ac mae ein diwylliannau yn bethau byw, sy'n newid a thyfu yn ôl ein gallu creadigol fel pobl.

Ac, yn wahanol i honiadau'r diwydiant cig, fyddai torri i lawr yn sylweddol iawn ar faint o gig rydyn ni yng Nghymru yn ei fwyta ddim yn golygu rhwyg fawr gyda'n gorffennol nag aberth annerbyniol.

***Wedi'r cwbl, pe byddwn ni'n torri dim ond traean o'r cig o'n deiet presennol, byddwn ni'n dal i fwyta cymaint o gig â phobl dim ond 40 mlynedd yn ôl.***

Ond byddwn yn gwneud llawer o ddaioni i'r Ddaear ac i'n hunain.

Fel dywedodd un person doeth: 'Bwytewch fwyd maethlon. Llysiau yn benna'. Dim gormod.'

**● Mae'r nwy methan sy'n cael ei gynhyrchu gan wartheg yn 23 gwaith mwy peryglus fel nwy tŷ gwydr na $CO_2$.**

**● Mae angen 4 calori o brotin llysieuol i wneud 1 calori o brotin cyw iâr, 17 calori o brotin llysieuol am 1 calori o borc, 50 am gig oen a 54 am cig eidion – llysiau a grawn allai gael eu bwyta gan bobl.**

**● Ar gyfartaledd, mae pobl Prydain Fawr yn bwyta 50g o gig bob dydd – 25-50% yn fwy na'r hyn awgrymir gan y World Health Organisation.**

**● Mae angen 990 litre o ddŵr i gynhyrchu 1 litre o laeth.**

**● Ond - mae adroddiad o Brifysgol Surrey yn nodi'r pwysigrwydd i'r amgylchedd o gadw rhyw faint o gynhyrchu da byw – er mwyn gwarchod tiriogaeth a chynefinoedd arbennig ar dir uchel.**

# CYNGOR SIR BENFRO YN METHU ETO!

**AM yr ail waith, mae Adran Gynllunio Cyngor Sir Benfro wedi gwrthod cais am ganiatad i greu pentref ecolegol arloesol ar diroedd ffarm Pont-y-gafel ger pentre Glandwr.**

**Meddai un o drefnyddion pentref ecolegol Lammas, Dave Owen sydd a'i wreiddiau yn mynd yn ôl pump cenhedlaeth yn y sir, "Rydyn ni wedi colli cyfle i roi Sir Benfro ar flaen ymdrechion cynaliadwyedd."**

**Meddai'r Dr Larch Maxey, "Mae adroddiad swyddogion cynllunio'r sir yn dangos bod bwlch mor fawr a mynydd iâ rhwng polisi a gweithredu.**



Model o ganolfan pentref arloesol Lammas

**"Mae gwyddoniaeth yn dangos bod gennym 100 mis i atal anrhefn hinsawdd. Rhaid i'n system cynllunio ddeffro i'n cynorthwyo i wynebu her fwyaf dynoliaeth."**

**Gobaith Lammas yw creu pentref o 9 bwthyn effaith isel gyda theuluoedd yn sefydlu mentrau amrywiol caredig i'r amgylchedd gan gynnwys tyfu llysiau a ffrwythau, codi mwyaid ar gyfer systemau compostio, a chynhyrchu siolau o frethyn llin** (gweler Y Papur Gwyrdd Chwefror / Mawrth).

**Bwriad cefnogwyr Lammas yw apelio i'r Cynulliad Cenedlaethol wrth geisio gwyrdroi penderfyniad y sir.**

# Daear-iadur Y Papur Gwyrdd



**Beth sy’ ’mlaen yng Nghymru i warchod y byd?**

## Ffair Werdd Llanidloes

**BYDD myrdd o ddigwyddiadau diddorol yn ymwneud â’r amgylchedd ar gyfer y teulu cyfan yn Ffair Werdd ardderchog Llanidloes, Powys, ar benwythnos 4-5 Hydref.**

I gael ei agor gan Mick Bates AC am 10.30 ar Sadwrn y 4ydd, bydd y ffair yn cynnig atebion cadarnhaol ac ymarferol i gymunedau ac unigolion sy’n ceisio byw bywydau carbon isel.

Ceir darlithoedd, arddangosfeydd, cyfleoedd chwarae i blant, gweithdai amrywiol, sesiynau coginio, cerddoriaeth, celf ac ati.

*** **DISGWYLIR i raglen deledu** ‘Newid Hinsawdd’ **gan BBC Cymru gael ei darlledu ar S4C ar nos Fawrth, 2 Rhagfyr. Gweler y wasg am fanylion.**

Ymysg uchelfannau’r ffair bydd darlithoedd gan y gwyddonydd Syr John Houghton ar *The Challenge of Global Climate Change – 2C and 7 Years*, am 11yb yn Neuadd Minerfa ar Sadwrn y 4ydd.

Bydd Jane Davidson, Gweinidog Amgylchedd Cymru, a’r ymgyrchydd gwyrdd George Monbiot ymhlith siaradwyr eraill. ►**Mwy o wybodaeth: www.llanidloes.com**

### TANYSGRIFIO

**Croeso i chi danysgrifio os nad yw’r Papur Gwyrdd ar gael yn eich siop leol. Sieciau am £6 am 6 rhifyn (croesewir cyfraniadau ychwanegol i helpu gyda chostau postio) at: Y Papur Gwyrdd, 217 Vicarage Road, Treforys, Abertawe SA6 6DX**

### HYSBYSEBION

**I hysbysebu yn Y Papur Gwyrdd, ffoniwch 01792 798162 neu ebostiwch am fanylion at: ypapurgwyrdd1@ btinternet.com**

### GWEFAN

**Croeso i chi ymweld â’n Gwefan sydd â phyrth i’r Byd Gwyrdd — sef: www.ypapurgwyrdd.com**

## Gwledd fwyd ar lannau’r Conwy

Y LLYNEDD, enillodd Gwledd Conwy oscar **Digwyddiad Cymunedol Gorau Cymru** yng Ngwobrau Twristiaeth Cymru — ac mae’r trefnwyr yn benderfynnol y byddan nhw ar y brig eto eleni.

Cynhelir yr ŵyl hynod amrywiol a blasus hon o gynnyrch lleol glannau afon Conwy ar 25-26 Hydref.

Meddai’r trefnwyr: “Mae prynu bwyd yn lleol yn dda i'r economi leol, yn dda i ffermwyr teuluol, yn dda i iechyd y teulu, ac yn dda i'r amgylchedd. Heb son am flas anhygoel bwyd ffres, lleol!

“Yn ystod Gwledd Conwy, mae cyfleon lu i brofi bwyd sydd wedi'i gynhyrchu'n lleol, i siarad gyda'r cynhyrchwyr lleol ac i ddechrau magu perthynas gyda nhw.”

►**Mwy o wybodaeth: www.conwyfeast.co.uk**

## Hawl i Holi yn Llandeilo

**BYDD cangen arloesol Tref Trawsnewid Llandeilo yn cynnal *Any Questions* ar nos Iau, 30 Hydref, yn y Neuadd Ddinesig.**

Ar y panel fydd Adam Price, AS Plaid Cymru Dwyrain Shir Gâr a Dinefwr; Bernard Llewellyn, Cadeirydd NFU Sir Gaerfyrddin; Peter Davies, cadeirydd Comisiwn Datblygu Cynaliadwy Cymru; a Peter Harper, pennaeth ymchwil a menter Canolfan y Dechnoleg Amgen, Machynlleth.

Yn y gadair fydd y gyflwynwraig deledu adnabyddus Elinor Jones.

Bydd croeso i bawb fynychu’r hyn sy’n siwr o fod yn gyfarfod diddorol a dadlennol dros ben ar bynciau’n ymwneud â’r amgylchedd a’r angen i baratoi am fyd heb olew.

## Gŵyl Heddwch

BYDD Gŵyl Heddwch Cymru 2008 yn cael ei chynnal ym Mangor ar Sadwrn, Hydref 18, a Sul, Hydref 19. Cynhelir yr Ŵyl yn Adran Dysgu Gydol Oes, Stryd y Deon, Bangor. Trefnir gan Grwp Heddwch a Chyfiawnder Bangor ac Ynys Môn. Bydd llawer o grwpiau ymgyrchu yn bresennol.

►**Mwy o wybodaeth: www.gwylheddwchcymru.org.uk**

### FFAIR ABERTAWE

CYNHELIR Ffair Werdd Abertawe yn Amgueddfa Genedlaethol y Glannau ar Ddydd Sul, 30 Tachwedd. Bydd yno stondinau o bob math gan gynnwys anrhegion Nadolig gwyrdd

► **Am fwy o wybodaeth, holwch**: **hannah@environmentcentre.org.uk**

### TACHWEDD — MIS Y FIGANIAID

BYDD Figaniaid yn cynnal dathliadau gydol Tachwedd. Fel llysieuwyr, dyw Figaniaid ddim yn bwyta cig, ond dydyn nhw ddim ‘chwaith yn bwyta wyau na chynnyrch llaeth o unrhyw fath. Gyda sawl cangen yng Nghymru, mae Figaniaid yn esbonio nad yw eu harferion bwyta’n achosi dioddefaint i anifeiliaid ac nad ydynt ’chwaith yn achosi niwed i’r amgylchedd. Bu cangen Wrecsam yn ymgyrchu yn erbyn y polisi sy’n cael ei ystyried gan Lywodraeth y Cynulliad Cenedlaethol o ladd moch daear.

**► Croesawn eitemau at Ddaear-iadur YPG ynghyd ag erthyglau ac eitemau newyddion. Ebostiwch at: ypapurgwyrdd1@btinternet.com. Ffoniwch 01792 798162. Llythyrau at 217 Vicarage Road, Treforys, Abertawe SA6 6DX**

# PLAID YN GWTHIO AM BOLISIAU GWYRDD CRYFACH

YN EU Cynhadledd Flynyddol yn Aberystwyth, cryfhaodd cynrychiolwyr Plaid Cymru eu safbwynt ar yr amgylchedd gan alw am ostyngiad o 9% y flwyddyn mewn allyriadau $CO_2$.

Mewn pedwar cynnig ar bwnc yr amgylchedd, galwodd y Gynhadledd ar Lywodraeth Cymru Un i -

- hybu busnesau gwyrdd, cynaliadwy
- bwyso ar San Steffan i ddatganoli pwerau dros bwerdai sy'n cynhyrchu mwy na 50MW i Gymru
- sefydlu Asiantaeth Newid Hinsawdd Cymru Gyfan i hybu ynni carbon isel a charbon sero
- wrthwynebu morglawdd enfawr rhwng Caerdydd a Weston Super Mare gan anelu at greu ynni trwy gyfuniad o forlynnoedd a thyrbinau ffrwd-llanw
- A chynyddu targed gostyngiadau carbon diocsid o 3% i 9% y flwyddyn

## DIM GLO, DIOLCH — NEGES PROTEST CAERDYDD

# GLO=NEWID HINSAWDD

**SUDDODD pobl hynod bwysig Awdurdod Glo Prydain i'w cadeiriau moethus yng Ngwesty St David's yng Nghaerdydd.**

**Ar 10 Medi, roeddynt yn disgwyl sesiwn fach dawel arall o gynllwynio difrod i'r Ddaear wrth elwa o fwy o lofeydd a safleoedd glo brig yng Nghymru.**

Ond torrwyd ar eu traws gan brotestwyr Cymreig a fynegodd eu gwrthwynebiad i weithgarwch y corfforaethau glo mawreddog sy'n achosi cymaint o allyriadau $CO_2$.

Codwyd baner fawr ar fynedfa'r gwesty i ddatgan y gwirionedd *Coal = Climate Disaster*.




Na, does dim lle iddynt guddio bellach. I fawrion y diwydiant glo Prydeinig, doedd hyd yn oed Gwesty St David's Caerdydd, ddim yn guddfan rhag gwrthwynebwyr i'w diwydiant brwnt. *LLUNIAU: www.coalhole.org*




Yn y neuadd gynadledda ei hun cynigiwyd Gwobr Ddinistr Hinsawdd i gadeirydd cwmni Miller Argent sy'n gyfrifol am safle glo brig Ffos-y-frân ym Merthyr, chwifiwyd baner yn datgan *Killer Argent*, a gwnaed araith gan fenyw *posh*, 'gorfforaethol-bwysig' yr olwg, yn nodi cyfraniad llosgi glo i Gynhesu Byd-eang.

"Roedd hi'n beth pwysig iawn i'w gwneud," meddai un o'r protestwyr, Angharad Penrhyn Jones. "Roedd cynrychiolwyr y cwmniau a'r cwangos yn *shocked* wrth imi eu hannerch.



"Soniais am effaith glo ar Newid Hinsawdd. Roedden nhw'n ddirmygus.

"Dechreuodd rhai glapio'n ara' deg, ac roedd rhywfaint o chwerthin a bwian."

Ond ar yr un dydd, meddai Angharad, cafwyd protestwyr eraill yn ddi-euog gan lys barn yn Lloegr am eu gwrthdystiad nhw yn erbyn Pwerdy Glo arfaethedig Kingsnorth.

Byddai hynny wedi cryfhau neges gwrthdystiad Caerdydd i benaethiaid y cwmniau glo a'r llywodraeth – sef nad yw pobl yn fodlon derbyn mwy o ddifrod i'r Ddaear gan y diwydiant ynni mwya' brwnt o'r cyfan.

# … Ac yn y gegin, ail greu traddodiad casglu mwyar, tyfu cyrens, a phobi






OS oes unrhywbeth yn symbol o droi cefn ar ddulliau globaleiddio, wel, casglu mwyar duon ydyw.

A dyna mae Teulu Davies, Treforys, wedi bod yn ei wneud yn ddiweddar wrth deithio ar ein beiciau ar hyd glannau Afon Tawe at y môr.



Braf gweld cynifer o fwyar duon ar gael — yn tyfu'n naturiol ddigon heb orchudd o blastig — a gwych clywed pobl ar Radio Cymru yn datgan bod hwythau hefyd yn troi nôl at draddodiad hynafol hyfryd sy'n dod â rhywun mor agos at natur, a'i holl bigiadau.

Braf hefyd gasglu Cyrens Coch o'r ardd — ac afalau sy'n disgyn o goeden drws nesaf (gyda chaniatad!)

Ac yna, naw wfft eto i'r archfarchnadoedd wrth i hud a lledrith (a gwaith ymroddgar, bid siwr) y Gegin greu tartenni a jariau o jam melysa'r byd. *Every little helps* — y Ddaear! HD □



Mynnwch
gwsg
ym mynwes
natur



# Matresi Organig gan Abaca

01269 598491
info@abacaorganic.co.uk

